Cyngor Diogelwch Tân i Denantiaid Mewn Fflatiau (Di-Loches)

Os ydych yn byw mewn cynllun tai lloches gofynnwch am gyngor oddi wrth eich Swyddog Tai Lloches.

Mae tân yn lladd!
Ewch allan ac arhoswch allan!
Ffoniwch 999!

Mae larymau mwg gwifredig wedi cael eu gosod yn eich cartref. Fodd bynnag, fel tenant gallwch gymryd nifer o gamau pwysig i atal y risg o dân.

Gwnewch yn siŵr na fyddwch yn gadael unrhyw wrthrychau neu eitemau fflamadwy (gan gynnwys dodrefn, biniau olwyn, carpedi a llenni) neu unrhyw eitemau eraill ar landinau neu risiau a rennir a allai amharu ar y ffordd allan, neu helpu tân i ymledu i lwybrau dianc cyffredin a fydd yn rhoi eich bywyd chi, a bywydau eich teulu a'ch cymdogion mewn perygl.

Bydd mat drws sengl yn dderbyniol tu allan i bob drws mynediad fflat ar yr amod ei fod yn fat drws penodol ac yn cael ei roi yn uniongyrchol o flaen eich drws. Rhaid iddo gael deunydd gwrthlithro ar y cefn, fod mewn cyflwr da a heb ymylon sydd wedi cyrlio. Caniateir uchafswm lled y drws x 18 modfedd ac ni ddylid ei leoli ar ben grisiau nac achosi perygl baglu. NI FYDD rygiau, carpedi hirion, toriadau carped na theils carped yn dderbyniol.

Rhowch wybod i'ch Swyddfa Tai os ydych yn defnyddio silindrau Ocsigen Meddygol yn y cartref. Fel gyda gwasanaethau eraill yn y cartref, er enghraifft, nwy a thrydan domestig, mae angen i chi gadw ychydig o ragofalon syml. Mae nifer o beryglon sy'n gysylltiedig ag ocsigen a rhaid cymryd gofal gyda'r rhain wrth eu defnyddio a'u storio.

- Gwnewch yn siŵr bod eich cyfarpar ocsigen yn cael ei storio'n ddiogel allan o'r haul, ei awyru'n dda, bob amser yn sych ac i ffwrdd o ffynonellau gwres.
- Peidiwch â defnyddio ocsigen ger fflamau noeth, gan gynnwys poptai nwy a thrydan - mae 3 metr yn bellter diogel.
- Peidiwch byth ag ysmygu neu ddefnyddio offer trydanol, megis sychwyr gwallt, wrth ddefnyddio ocsigen.

Bydd eich Warden Amgylcheddol Cymunedol leol yn cynnal archwiliadau rheolaidd o ardaloedd cymunedol. Peidiwch â gwylltio os gofynnir i chi symud unrhyw eitemau - bydd unrhyw gais fel hyn er eich diogelwch chi a'r rhai sy'n rhannu'r mannau cymunedol.

Os oes gan eich bloc o fflatiau ddrws diogelwch, sicrhewch eich bod yn cau'r drws hwnnw y tu ôl i chi bob amser. Peidiwch ag agor y drws i unrhyw un nad ydych wedi ei wahodd a nodwch unrhyw weithgareddau gwrthgymdeithasol yn eich bloc i'ch Swyddfa Tai leol a'r Heddlu.

Mae'n bwysig i gynllunio llwybr dianc ac i fod yn barod mewn achos o dân.

CAMAU I DDIOGELWCH - CYNLLUNIO LLWYBR DIANC

1 Gwnewch yn siŵr eich bod chi a phawb sy'n byw gyda chi yn gyfarwydd â'r cynllun i ddianc mewn tân, yr hyn i'w wneud mewn tân a'r holl lwybrau dianc. I lawr y grisiau cyffredin ac allan drwy ddrysau'r fynedfa gefn neu flaen yw'r llwybr dianc gorau. Peidiwch BYTH â defnyddio lifftiau neu falconïau os ceir tân.

2 Gosodwch fanylion yr hyn sydd i'w wneud mewn tân yn rhywle amlwg yn eich cartref i atgoffa aelodau o'ch aelwyd o'r hyn i'w wneud os ceir tân. Gwnewch yn siŵr bod pawb yn gwybod lle mae'r allanfeydd tân.

3 Cadwch yr holl allanfeydd a'r mannau cyffredin yn glir bob amser.

4 Cadwch ddrysau tân ar gau er mwyn helpu i atal tân rhag ymledu a rhoi mwy o amser i chi fynd allan. Peidiwch byth ag ymyrryd â drysau tân na thynnu offer cau drysau oherwydd maen nhw wedi'u gosod er mwyn gwella diogelwch.

5 Dewiswch ystafell ddiogel yn eich cartref y gallwch fynd iddi os ceir tân - ystafell sy'n cynnwys ffenestr a ffôn os oes modd.

6 Cadwch gyfeiriad eich eiddo wrth ymyl eich ffôn gan y bydd hyn yn helpu'ch plant a'ch perthnasau i ffonio am gymorth a rhoi'r wybodaeth gywir i'r gwasanaethau brys.

7 Cadwch dortsh o ansawdd da o fewn cyrraedd yn eich cartref. Gwnewch yn siŵr bod pawb o'ch teulu'n gwybod lle'r ydych yn ei gadw. Bydd hyn yn eich helpu i adael yr adeilad yn ddiogel yn y nos os bydd y trydan neu'r golau'n methu.

8 Os oes gan unrhyw aelod o'ch aelwyd anabledd sy'n eu hatal rhag gallu symud o gwmpas yn rhwydd (e.e. problem golwg neu glyw), gwnewch yn siŵr eich bod yn cadw unrhyw gymhorthion y maent yn dibynnu arnynt mewn man sy'n hawdd iddynt eu cyrraedd (e.e. cymorth cerdded). Pan fyddwch yn ffonio'r gwasanaethau brys, gwnewch yn siŵr eich bod yn dweud wrthynt os oes gan unrhyw un anabledd a allai eu hatal rhag symud o gwmpas yn rhwydd.

9 Cyfrifwch faint o ddrysau y mae angen i chi fynd drwyddynt wrth ddianc - mae'n hawdd drysu mewn mwg neu yn y tywyllwch.

10 CADWCH EICH PEN A GWEITHREDWCH YN GYFLYM

11 Os yw'r tân yn **eich fflat eich hun** ac na allwch ei reoli:
- Teimlwch bob drws â chefn eich llaw cyn ei agor. Peidiwch â'i agor os yw'n teimlo'n gynnes - fe allai'r tân fod ar yr ochr arall iddo/iddi. Os nad yw'n ddiogel i chi adael, dilynwch y cyngor ym mhwynt 12 isod
- Os yw'n ddiogel i chi wneud hynny, gadewch ar unwaith ac, os oes modd, caewch yr holl ddrysau mewnol ac allanol
- Peidiwch â gwastraffu unrhyw amser yn casglu unrhyw eitemau neu eiddo gwerthfawr
- Rhybuddiwch eich cymdogion os oes modd
- Ffoniwch y gwasanaethau brys
- Defnyddiwch y llwybr dianc mwyaf diogel i adael yr adeilad
- Os yw'n ddiogel i chi wneud hynny, arhoswch ar y safle, y tu allan ac yn ddigon pell o'r tân ac arhoswch am y gwasanaethau brys er mwyn eu hysbysu ynghylch achos a lleoliad y tân. Bydd hyn yn arbed amser gwerthfawr, yn helpu i achub bywydau ac yn cyfyngu ar y difrod.

12 Os yw'r tân mewn **man cyffredin:**
- Os ydych yn gwybod bod eich allanfa'n glir, gadewch yn gyflym a hysbysu'ch cymdogion os oes modd
- Peidiwch â gwastraffu unrhyw amser yn casglu unrhyw eitemau neu eiddo gwerthfawr
- Os nad yw'n ddiogel i chi adael, ewch â phawb i'r ystafell fwyaf diogel yn eich cartref
- Caewch yr holl ddrysau allanol a mewnol os oes modd
- Rhowch ddillad gwlyb ar waelod y drysau yn eich ystafell ddiogel er mwyn atal mwg rhag dod i mewn
- Os oes llawer o fwg, ewch ar eich pedwar ar hyd y llawr lle bydd yr aer yn lanach
- Agorwch y ffenestr a ffoniwch am gymorth - torrwch y ffenestr yn y dull mwyaf diogel os na allwch ei hagor
- Ffoniwch y gwasanaethau argyfwng a mynegi'r hyn sy'n digwydd mor glir ag sy'n bosibl.

13 Os bydd eich dillad yn mynd ar dân, gorweddwch ar y llawr a rholio o gwmpas neu fygu'r fflamiau â defnydd trwm. COFIWCH - STOPIO, CWYMPO A RHOLIO!

14 Os ydych ar y llawr gwaelod bydd yn haws i chi ddianc. Os oes angen i chi dorri ffenestr, gwnewch hynny mewn modd diogel a gorchuddio unrhyw ymylon miniog ar y gwydr er mwyn i chi allu dringo allan yn ddiogel.

15 Os oes rhaid i chi ddianc o fflat sy'n uwch na'r llawr gwaelod, taflwch ddillad gwely neu eitemau meddal i'r ddaear er mwyn clustogi'ch cwymp. Dylech ond gwneud hyn os yw'n ymarferol ac os yw'r uchder yn rhesymol. Peidiwch byth â neidio o ffenestr! Gostyngwch eich hunan at hyd braich cyn gollwng eich gafael a chwympo i'r ddaear.

16 Pan fydd y gwasanaethau argyfwng yn cyrraedd, byddant yn dweud wrthych beth i'w wneud nesaf.

17 PEIDIWCH Â MYND YN ÔL I MEWN I'R ADEILAD!

Yn y tabl canlynol rhestrir yr achosion tân mwyaf cyffredin a sut y gallwch helpu i atal tân yn eich cartref:

Yr achosion tân mwyaf cyffredin	**Yr hyn y gallwch ei wneud i atal y risg o dân yn eich cartref**
Socedi ac offer trydanol 	• Peidiwch â gorlwytho socedi • Ceisiwch roi un plwg yn unig ym mhob soced • Defnyddiwch geblau estyniad yn ddiogel • Diffoddwch a thynnwch blygiau unrhyw eitemau trydan os nad ydych yn eu defnyddio a chyn i chi fynd i'r gwely (oni bai eu bod wedi'u dylunio i gael eu gadael ymlaen e.e. eich rhewgell) • Peidiwch â cheisio trwsio unrhyw nam trydanol eich hunan • Rhowch wybod am unrhyw atgyweiriadau angenrheidiol cyn gynted ag sy'n bosibl
Sigarennau 	• Diffoddwch sigarennau'n iawn a'u taflu i ffwrdd yn ofalus • Diffoddwch nhw! Diffoddwch nhw'n llwyr! • Os oes modd, dylech ei wlychu a'i daflu i'r bin y tu allan i'ch cartref • Peidiwch BYTH ag ysmygu yn y gwely • Cadwch fatsis a thanwyr ymhell o gyrraedd plant
Canhwyllau 	• Gwnewch yn siŵr eich bod yn eu diffodd yn llwyr ar ôl eu defnyddio • Peidiwch â'u gadael heb neb i ofalu amdanynt • Gwnewch yn siŵr eich bod yn eu gosod ar wyneb diogel • Rhowch nhw mewn daliwr gwrthdan • Cadwch nhw ymhell oddi wrth lenni, ffabrig, anifeiliaid anwes a phlant

Yr achosion tân mwyaf cyffredin	Yr hyn y gallwch ei wneud i atal y risg o dân yn eich cartref
Ceginau 	• Diffoddwch y ffwrn pan nad ydych yn ei defnyddio • Peidiwch â gadael plant yn y gegin ar eu pen eu hunain wrth goginio • Gwnewch yn siŵr bod handlenni sosbannau allan o gyrraedd plant ac o'r ffordd • Byddwch yn ofalus wrth goginio ag olew poeth • Cadwch lieiniau te, clytiau a phapur cegin ymhell o'r man coginio • Cymerwch ofal os ydych yn gwisgo dillad llac, gallant fynd ar dân yn rhwydd • Cadwch offer coginio'n lân ac mewn cyflwr da, oherwydd gall braster a saim sydd wedi hel gynnau tân • Peidiwch â rhoi unrhyw beth metel yn y ficrodon
Larymau Mwg 	• Gwnewch yn siŵr eich bod yn profi'ch larymau mwg yn rheolaidd ac yn ein hysbysu am unrhyw broblem • Peidiwch BYTH â gorchuddio'ch larymau mwg • Rhowch wybod am unrhyw ddifrod ar unwaith
Offer Nwy 	• Sicrhewch eich bod yn caniatáu i ni gael mynediad er mwyn cynnal y gwiriadau blynyddol ar eich offer nwy a'ch system gwres canolog • Os ydych yn gosod eich offer nwy eich hunan, defnyddiwch beiriannydd sydd wedi'i gofrestru ar Gas Safe bob tro • Cadwch ddillad, dodrefn ac eitemau eraill fflamadwy'n ddigon pell oddi wrth offer gwresogi • Peidiwch â defnyddio gwresogyddion i sychu dillad • Sicrhewch fod gwresogyddion wedi'u diffodd yn gyfan gwbl pan nad ydych yn eu defnyddio • Defnyddiwch gard os oes angen er mwyn diogelu plant, anifeiliaid anwes ac ati
Ysbwriel, cardffwrdd, dodrefn swmpus, ac ati 	• Gwaredwch unrhyw eitemau yn y biniau priodol a ddarperir • Cadwch unrhyw eitemau swmpus mewn man diogel hyd nes iddynt gael eu cymryd ymaith i'w gwaredu • Pan fydd casgliad eitemau swmpus yn cael ei drefnu, mae angen rhoi'r eitemau allan i'w casglu erbyn 6am ar fore'r dyddiad casglu a hysbysir. Rhaid eu cadw'n sych a dylid eu rhoi tu allan i'ch cartref mewn man diogel er mwyn osgoi unrhyw beryglon baglu, mynedfeydd a grisiau.

Yr achosion tân mwyaf cyffredin	Yr hyn y gallwch ei wneud i atal y risg o dân yn eich cartref
Alcohol/Meddyginiaeth 	• Yfwch yn ddiogel - byddwch yn ofalus iawn ar ôl yfed • Peidiwch â cheisio coginio os ydych dan ddylanwad alcohol • Byddwch yn arbennig o ofalus os ydych yn cymryd meddyginiaeth a allai eich gwneud yn gysglyd
Tân Gwyllt 	• Byddwch yn ddiogel • Peidiwch byth â chwarae â thân gwyllt • Ewch i sioe sydd wedi'i threfnu os oes modd • Taniwch yr holl dân gwyllt mewn man diogel ac yn ddigon pell o'ch cartref • Gwisgwch fenig wrth ddefnyddio ffyn gwreichion • Cadwch y plant yn ddigon pell rhag iddynt gael niwed neu anaf • Cadwch anifeiliaid anwes yn y tŷ • Gwaredwch unrhyw dân gwyllt sydd wedi'i ddefnyddio mewn modd diogel • Os oes modd, dylech ei wlychu a'i daflu i'r bin y tu allan i'ch cartref
Coelcerthi 	• Rhowch wybod i'ch cymdogion os oes rhaid i chi danio coelcerth • Llosgwch ddeunyddiau sych yn unig • Peidiwch byth â llosgi ysbwriel y cartref, rwber neu unrhyw beth sy'n cynnwys plastig, sbwng neu baent • Peidiwch byth â defnyddio petrol, olew neu danwydd tebyg i danio tân • Osgowch danio tân mewn tywydd anaddas e.e. gall tywydd gwyntog newid cyfeiriad y tân a'r mwg • Cadwch anifeiliaid anwes a phlant yn ddigon pell oddi wrth unrhyw risg neu berygl
Eitemau'r cartref 	• Gwnewch yn siŵr bod label gwrthdan ar eich holl ddodrefn • Peidiwch â gadael blancedi trydan wedi'u plygu gan fod hyn yn difrodi'r gwifrau mewnol – rholiwch nhw yn lle hynny • Tynnwch blygiau blancedi trydan allan cyn mynd i'r gwely • Rhowch wresogyddion symudol yn erbyn wal fel nad ydynt yn cwympo • Cadwch wresogyddion symudol ymhell oddi wrth lenni a dodrefn ac yn ddigon pell oddi wrth blant ac anifeiliaid anwes • Cadwch allweddi drysau a ffenestri o fewn cyrraedd, yn rhywle sy'n hysbys i bawb • Caewch ddrysau mewnol yn y nos er mwyn atal tân rhag ymledu

Yr achosion tân mwyaf cyffredin	Yr hyn y gallwch ei wneud i atal y risg o dân yn eich cartref
Cynllun Gweithredu a Llwybr Dianc 	• Crëwch gynllun gweithredu fel bod pawb yn eich cartref yn gwybod sut i ddianc yn ddiogel os ceir tân • Gwnewch yn siŵr bod pawb yn gwybod yn union beth i'w wneud • Sefydlwch lwybr dianc clir • Ymarferwch y cynllun a'r llwybr dianc yn rheolaidd

RHESTR WIRIO

✓ Caewch ddrysau mewnol yn y nos er mwyn atal tân rhag ymledu

✓ Diffoddwch offer trydanol a thynnu'r plygiau allan oni bai eu bod wedi'u dylunio i'w gadael ymlaen

✓ Gwnewch yn siŵr eich bod wedi diffodd eich ffwrn

✓ Peidiwch â gadael y peiriant golchi neu'r peiriant sychu dillad ymlaen

✓ Diffoddwch wresogyddion a gosod gardiau tân

✓ Diffoddwch ganhwyllau a sigarennau'n llwyr

✓ Gwnewch yn siŵr eich bod yn cadw allanfeydd yn glir

✓ Cadwch allweddi drysau a ffenestri yn rhywle sy'n hysbys i bawb

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â diogelwch, cysylltwch â'ch gwasanaeth tân lleol am gyngor rhad ac am ddim.